Plaid Werdd
Green Party

# AR GYFER GWLAD DECACH, GWYRDDACH

GWYRDD EICH BYD

Manifesto 2024

# CROESO I'R MANIFFESTO GAN DÎM ARWAIN PLAID WERDD CYMRU

Beth mae'r Etholiad Cyffredinol hwn yn ei olygu i Gymru? A pha resymau allwn ni eu rhoi i chi dros bleidleisio dros y Gwyrddion? Gwyddom y bydd pleidlais Werdd yn effeithiol wrth osod sylfeini go iawn ar gyfer y mathau o newidiadau sydd eu hangen arnom yn ein cymdeithas. Mae gan y Gwyrddion y polisïau sy'n gallu ymateb ar raddfa fawr i'r heriau rydyn ni i gyd yn eu hwynebu. Bod yn realistig ynghylch cwmpas y newidiadau sydd eu hangen yw'r gobaith a gynigiwn yn y polisïau hyn.

Os ydych chi'n hoffi'r hyn rydych chi'n ei ddarllen, ymunwch â ni a helpwch i wneud Cymru'n wlad well i fyw ynddi!

Mae'r Etholiad Cyffredinol hwn yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod anodd iawn i lawer o bobl yng Nghymru. Mae gennym y lefelau uchaf o dlodi ac allgáu cymdeithasol yn y DU ac mae gwaddol blynyddoedd o gyni Toriaidd yn parhau i wneud pethau'n waeth. Mae goblygiadau Brexit hefyd yn cyfrannu at amodau gwaeth ar gyfer ffermio a diwydiannau eraill, ochr yn ochr ag effeithiau parhaus pandemig COVID ar ein hiechyd a'n llesiant. Y cyd-destun ehangach yw'r argyfwng newid hinsawdd a'r argyfwng o ran dirywiad natur sy'n parhau ac sy'n achosi llifogydd trychinebus, gwyntoedd cryfion, erydiad arfordirol a phrisiau bwyd uwch. Mae cyflwr llygredig ein hafonydd a'n moroedd wedi dod yn symbol grymus o system sy'n siomi pobl a natur.

Yn y cyd-destun hwn, mae'n rhaid i gynlluniau ar gyfer Newid Go Iawn ymateb drwy weithredu'n effeithiol a chefnogi pobl drwy'r newidiadau angenrheidiol. Dyma beth rydyn ni'n ei olygu wrth Bontio Teg yng Nghymru. Bydd ein cynlluniau ar gyfer dyfodol cyfiawn a chynaliadwy nid yn unig yn diogelu ein hamgylchedd ond hefyd yn darparu swyddi gwyrdd newydd ac yn atgyfnerthu gwasanaethau cyhoeddus, gan gefnogi'r rhai sydd wedi cael eu gadael ar ôl wrth i ddiwydiannau traddodiadol Cymru ddirywio. Mae llesiant ac ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol wrth wraidd ein neges. Rydym yn cefnogi'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni o ran Nodau Llesiant drwy Lywodraeth Cymru a'r Senedd, gan gynnwys Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae angen gweithredu mwy effeithiol.

Mae Plaid Werdd Cymru wedi ymrwymo i ymgyrchu dros Gymru annibynnol gyda'i chyfansoddiad democrataidd a'i Senedd annibynnol ei hun yn chwarae rhan hanfodol er mwyn cyflawni dyfodol gwyrdd.

Mae Plaid Werdd Cymru a Lloegr yn gweithio gyda ni i gefnogi polisïau yr ydym yn cytuno arnynt ar gyfer meysydd datganoledig. Yn fwy na hynny, gall Gwyrddion etholedig yn San Steffan helpu i sicrhau newid yng Nghymru trwy gefnogi rhai mesurau y mae angen iddynt ddigwydd ar lefel y DU gyfan ar hyn o bryd. Mae rhai pleidiau eraill yng Nghymru yn cydnabod argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth ond gwyddom nad yw eu hymateb yn ddigonol o ystyried difrifoldeb y problemau. Bydd pleidlais dros Blaid Werdd Cymru yn anfon neges gref at y llywodraeth newydd ac yn ein helpu i ddwyn pleidiau eraill i gyfrif a phwyso am fesurau cryfach.

Pleidleisiwch dros y Blaid Werdd i greu effaith!

Anthony Slaughter, Phil Davies a Linda Rogers

Mae'r maniffesto hwn yn nodi'r hyn y credwn sy'n gyraeddadwy, o ystyried ein man cychwyn, ond mae hefyd yn edrych ymlaen at osod y sylfaen ar gyfer newid uchelgeisiol a phellgyrhaeddol.

# AR GYFER GWLAD DECACH, GWYRDDACH



## Anthony Slaughter

Mae gwleidyddiaeth 'busnes fel arfer' flinedig yn methu ein cymunedau. Nid yw San Steffan yn llwyddo. Mae Cymru'n haeddu gwell.

Mae gennym y polisïau radical, beiddgar sydd eu hangen i greu dyfodol tecach, gwyrddach i bawb.

Os ydych chi eisiau gweld newid go iawn, mae'n bryd troi'n Wyrdd!



## Linda Rogers

Mae San Steffan yn canolbwyntio ar "sylfeini cyn rhyfel", gyda mwy yn cael ei wario ar amddiffynfeydd niwclear. Ond mae'r bygythiadau mawr i'n diogelwch, effeithiau trychinebus y  newid yn yr hinsawdd, prinder bwyd ac anghydraddoldeb oll yn gwaethygu yn sgil eu polisïau.

Buddsoddi'n Wyrdd, Buddsoddi yn y Dyfodol!



## Phil Davies

Y Deyrnas Unedig yw un o'r gwledydd mwyaf anghyfartal yn Ewrop. Ni all y sefyllfa hon barhau. Mae angen gwir obaith a gwir newid! Mae arnom angen plaid gyda'r polisïau beiddgar a thrawsnewidiol i sicrhau dyfodol gwell a mwy cyfartal i bawb yng Nghymru.

Mae angen y Gwyrddion arnom!

# CYNNWYS


5 Y PRIF BWYNTIAU POLISI

8 YR HINSAWDD, BIOAMRYWIAETH A THLODI

11 GWLAD DECACH, IACHACH

15 GOFALU GYDAG URDDAS A THRUGAREDD

17 CARTREFI TECACH, GWYRDDACH

21 CREU ECONOMI LESIANT SY'N DECACH A GWYRDDACH

24 CYNNAU YNNI TECACH A GWYRDDACH

27 GWAITH TECACH, CYFLOGAU TECACH

29 CYMORTH CYMDEITHASOL TECACH, GWYRDDACH

30 RHOI BYWYD NEWYDD I FYD NATUR

33 TRINIAETH DECACH, MWY CAREDIG O ANIFEILIAID

34 BWYD A FFERMIO TECACH, GWYRDDACH

TRAFNIDIAETH DECACH, GWYRDDACH

37 SYSTEM ADDYSG DECACH, GWYRDDACH

38 CELFYDDYDAU, CHWARAEON A DIWYLLIANT I BAWB

40 AMDDIFFYN HAWLIAU DYNOL, DEMOCRATIAETH A CHYFIAWNDER

43 BYD TECACH, GWYRDDACH

47 CROESO TECACH, GWYRDDACH

50 ATODIAD COSTAU




# Y PRIF BWYNTIAU POLISI

- Mae ein dyfodol yn dibynnu ar natur a hinsawdd sefydlog. Bydd y Gwyrddion yn rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu ynghylch adfer yr hinsawdd a bioamrywiaeth ar draws pob ardal, yn unol ag egwyddorion Pontio Teg, gan greu swyddi gwyrdd newydd a chefnogi pobl drwy newid i system well.

- Trawsnewidiad Economaidd Gwyrdd i Economi Lesiant, gan gefnogi pontio i sero net, blaenoriaethu diwydiannau gwyrdd newydd a chael gwared ar bŵer niwclear.

- Gweithredu ar frys i lanhau ac adfywio ein hafonydd, moroedd a datrys dirywiad natur yn ein cefn gwlad drwy reoleiddio, gwell cyllid ac ymchwil.

- Cydnabod bod y celfyddydau a chwaraeon yn hanfodol i lesiant, gan gadw cyfleusterau chwaraeon, amgueddfeydd, theatrau, llyfrgelloedd ac orielau celf lleol ar agor a sicrhau eu bod yn ffynnu.

- Rhoi gwasanaethau cyhoeddus o dan reolaeth y wlad neu newid i fodel busnes cymdeithasol gyda gofynion cymdeithasol ac amgylcheddol cryf.

- Sicrhau bod y system nawdd cymdeithasol yn ddigonol gyda chynnydd o £40 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol, a chynyddu'r Credyd Pensiwn.

- Mynd i'r afael â thlodi plant, dileu'r cap ar fudd-daliadau i'r trydydd plentyn a darparu prydau ysgol maethlon am ddim i bob plentyn gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol.

- Adfer gwerth budd-daliadau anabledd a diwygio profion anaddas ar gyfer budd-daliadau fel PIP, dileu'r arfer o dargedu gofalwyr a phobl anabl sy'n derbyn budd-daliadau.

- Diogelu ac adfer system gofal cymdeithasol a Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol a ariennir yn briodol ac sy'n gwbl gyhoeddus, gyda gofal personol am ddim. Yng Nghymru, rydym yn cefnogi'r cynnydd a wnaed wrth sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r GIG.

- Adeiladu o leiaf 12,000 o gartrefi newydd bob blwyddyn yng Nghymru i ddatrys yr argyfwng tai. Mae angen mwy o dai cymdeithasol o ansawdd uchel ac effeithlon o ran ynni. Rydym yn cynnig cynllun ôl-osod enfawr ar gyfer tai hŷn i helpu i leihau biliau ynni.

- Atgyfnerthu rheolaethau rhent yng Nghymru gan gynnwys capiau ar rent a rhoi terfyn ar droi allan heb fai, a sicrhau bod tai yn fforddiadwy i bawb. Rydym yn cefnogi 'Hawl i Rent' i'r rhai sy'n cael wynebu anawsterau gyda thaliadau morgais.

- Gweithio gyda ffermwyr i sicrhau system daliadau sy'n hyrwyddo ffermio mwy cyfeillgar i natur, lleihau plaladdwyr, allyriadau carbon, cyflwyno atebion sy'n seiliedig ar natur ar gyfer llifogydd a mynd i'r afael â llygredd o ddŵr ffo amaethyddol.
- Sicrhau bod cymunedau'n elwa ar swyddi newydd a grëir ond hefyd incwm lleol o ffynonellau ynni adnewyddadwy lleol. Gallai datganoli Ystad y Goron sicrhau bod manteision ynni adnewyddadwy ar y môr o fudd i bobl Cymru.

- Cyhoeddi cadoediad ar unwaith yn Gaza, cefnogaeth i gyflwyniad De Affrica i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol, rhyddhau pob gwystl, rhoi'r gorau i werthu arfau i Israel a sicrhau cydnabyddiaeth lawn i wladwriaeth Palestina.

- Pwyso ar y DU i ymuno â Chytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW).



# GWYRDD EICH BYD

# YR HINSAWDD, BIOAMRYWIAETH A THLODI

Mae polisïau'r Blaid Werdd yn galw am weithredu ar frys a newid go iawn. Mae costau degawdau o ddiffyg gweithredu ar yr hinsawdd, bioamrywiaeth a thlodi yn dod yn fwyfwy amlwg. Mae angen i ni newid ar frys i ffyrdd newydd o wneud pethau yng Nghymru, yn y DU ac ar draws y byd. Mae llifogydd eisoes yn dinistrio cartrefi a bywoliaethau pobl ledled Cymru. Mae stormydd yn dinistrio ein systemau trafnidiaeth. Er bod pobl yn caru ac yn trysori profiadau natur a bywyd gwyllt, y DU yw un o'r gwledydd mwyaf tlawd yn y byd o ran amrywiaeth ei byd natur, gyda risgiau, nid yn unig i'r pethau rydyn ni'n eu caru, ond hefyd i'n cadwyn fwyd gyfan wrth i nifer y pryfed leihau 78%. Nid yw'n gyd-ddigwyddiad bod lefelau tlodi yng Nghymru bellach yn argyfwng. Mae 28% o holl blant Cymru yn byw mewn tlodi, mae lefelau amddifadedd wedi codi'n ddramatig ledled y DU, ac nid oes gan lawer o bobl gartref diogel ac mae dyledion yn codi. Ar yr un pryd, mae gennym lawer o gorfforaethau yn ymffrostio mewn elw uwch a chynnydd enfawr yn nifer y bobl sy'n gyfoethog iawn.

Nid yw'r rhain yn broblemau nad oes unrhyw gysylltiad rhyngddynt. Mae ein system economaidd hen ffasiwn yn dylanwadu ar bob un ohonynt - system sy'n manteisio ar gymunedau a natur. Ni ddylem ganolbwyntio ar faint y gallwn ei roi yn ôl i gadw busnes-fel-arfer i fynd, ond yn hytrach ar sut i symud tuag at system newydd a gwell. Mae'r polisïau a gyflwynwn isod yn gymysgedd o'r mesurau yr ydym yn credu eu bod yn hanfodol i gefnogi pobl drwy newid, ond maent hefyd yn gosod sylfeini ar gyfer trawsnewid ein systemau cynhyrchu, defnyddio, seilwaith, cynllunio, systemau trafnidiaeth a systemau addysg. Mae hyn yn golygu gweithio dros Bontio Teg, gan osod fframweithiau economaidd newydd, sy'n datblygu ymhellach ddealltwriaeth o werth ein hamrywiaeth gymdeithasol a diwylliannol ac yn diogelu hawliau pawb, trwy systemau cyfreithiol, plismona a chyfiawnder diwygiedig. Mae'n golygu gweithio dros economi Lesiant gyda chymysgedd gwell o fodelau busnes, gan gynnwys cyfleustodau gwladoledig, mentrau cymdeithasol a chydberchnogaeth, a dulliau newydd o fancio a chyllid a all godi arian ar gyfer newid a chefnogi busnes newydd gyda dibenion cymdeithasol ac amgylcheddol cryf.

# MAE 28%

## O HOLL BLANT CYMRU YN BYW MEWN TLODI

Wrth i ni weithredu ar yr hinsawdd, bioamrywiaeth a thlodi, bydd hefyd angen meithrin heddwch ar gyfer cydweithredu byd-eang, lleihau militariaeth, a gweithio'n galetach dros gyfiawnder byd-eang. Mae effeithiau trychinebus y newid yn yr hinsawdd yn dod yn fwyfwy amlwg mewn gwledydd tlotach yn Ne'r byd sy'n dibynnu'n helaeth ar amaethyddiaeth ac ecosystemau i oroesi. Fel rhan o'r Gogledd datblygedig, mae angen i Gymru chwarae ei rhan wrth gefnogi'r gwledydd hyn trwy addasu i'r newid yn yr hinsawdd a datblygu carbon isel/sero. Mae diogelwch go iawn yn lleol ac yn fyd-eang yn dibynnu ar safon byw teg i bawb a mwy o gyfranogiad mewn llywodraethu.

Mae angen cyfranogiad ehangach ar gyfer gobaith go iawn a newid go iawn, gan gynnwys cymunedau, grwpiau cymdeithas sifil ac undebau llafur, arbenigedd proffesiynol, ymchwil a mwy. Er mwyn cyflawni hyn mae angen mathau newydd o ddemocratiaeth sy'n galluogi mwy o gyfleoedd i gymryd rhan ac sy'n rhoi mwy o rym i gymunedau lleol.

Mae ein polisïau manylach isod yn gweithio tuag at y nodau hyn.



# GWLAD DECACH, IACHACH

Mae'r GIG ledled y DU yn wynebu'r argyfwng gwaethaf yn ei hanes 80 mlynedd, gyda chleifion yn marw mewn ambiwlansys, rhestrau aros hirach nag erioed am lawdriniaethau, a chyfraddau goroesi canser ymhlith y gwaethaf yn y byd datblygedig. Mae hyn oll yn deillio o danariannu bwriadol a llywodraeth yn San Steffan sy'n benderfynol o baratoi'r ffordd ar gyfer preifateiddio ein GIG gwerthfawr.

Mae Plaid Werdd Cymru wedi ymrwymo i gyllid tecach i Gymru er mwyn sicrhau system iechyd a gofal cymdeithasol gyhoeddus a ariennir yn llawn, ac i sicrhau nad yw elw yn ystyriaeth o ran y GIG.

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn pwyso am y canlynol:

- Gostyngiad cyson mewn rhestrau aros.
- Mynediad gwarantedig at ddeintydd y GIG
- Mwy o gyllid ar gyfer gofal sylfaenol gyda'r nod o ddarparu mynediad at feddyg teulu ar yr un diwrnod.

- Hwb ar unwaith i gyflog staff y GIG, gan gynnwys adfer tâl meddygon iau, gan gynnwys helpu gyda chadw staff

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, rydym yn amcangyfrif y bydd angen gwariant blynyddol ychwanegol ar iechyd a gofal cymdeithasol yn gyffredinol o £33.4bn gan godi i £56.5 biliwn dros oes y Senedd nesaf, hyd at 2030. Cyfrifir gwariant cyfalaf ychwanegol gydag Addysg ac mae angen cynnydd o £9.9 Bn, gan gyrraedd £7.1 biliwn dros 5 mlynedd Senedd nesaf San Steffan.

Mae buddsoddi mewn meddygon teulu ac iechyd y cyhoedd yn allweddol i waith atal afiechydon, rhoi diagnosis cynnar a gwella ansawdd ein bywyd, ac mae hefyd yn lleihau'r baich ar y GIG. Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn pwyso am y canlynol:

- Cynyddu dyraniad cyllid i ofal meddygol sylfaenol, gyda gwariant blynyddol ychwanegol erbyn 2030

- Adfer cyllidebau iechyd cyhoeddus i lefelau 2015/16 gyda chynnydd ar unwaith. Mae angen ariannu'n ddigonol wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, triniaeth cyffuriau ac alcohol a gwasanaethau iechyd rhywiol.

- Dylai Cymru gymryd rhan mewn Comisiwn i gytuno ar ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiwygio cyfreithiau aflwyddiannus y DU o ran cyffuriau.

## Deintyddiaeth y GIG

Mae'r ffaith bod deintyddiaeth wedi cael ei thanariannu'n gyson wedi arwain at sefyllfa lle na all miliynau o bobl dderbyn y gofal deintyddol sydd ei angen arnynt. Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn dod â sgandal diffyg gofal deintyddol i ben drwy bwyso am y canlynol:

- Contract newydd ar gyfer deintyddion y GIG a fyddai'n golygu bod gan bawb sydd angen deintydd y GIG fynediad at un.

- Buddsoddiad ychwanegol yng ngwasanaethau deintyddiaeth y GIG yn codi flwyddyn ar ôl blwyddyn erbyn 2030.

- Cyllid ar gyfer hybiau cymunedol a gofal sylfaenol i gyflwyno nyrsio deintyddol am ddim i blant a'r rhai ar incwm isel.

## Iechyd meddwl a niwroamrywiaeth

Dros y blynyddoedd diwethaf mae problemau iechyd meddwl wedi cynyddu'n syfrdanol, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, gyda gormod o bobl yn methu cael gafael ar gymorth pan fydd ei angen arnynt.

Bydd y Gwyrddion etholedig yn San Steffan yn pwyso am y canlynol:

- Fframwaith cyfreithiol sy'n cefnogi hawliau'r rhai sy'n wynebu problemau iechyd meddwl i gael eu parchu ac i fyw bywydau boddhaus.

- Mwy o gyllid ar gyfer gofal iechyd meddwl, gan ei roi ar sail gyfartal â gofal iechyd corfforol fel bod modd cael gafael ar therapïau iechyd meddwl sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn 28 diwrnod.

- Cwnselydd hyfforddedig a thâl ym mhob ysgol a choleg chweched dosbarth.

- Darpariaeth wedi'i theilwra sydd ar gael yn ddidrafferth i ddiwallu anghenion penodol cymunedau lliw, plant a phobl ifanc, pobl hŷn a chymunedau LGBTIQA+.

- Cefnogaeth ddigonol o fewn y system ysgolion ar gyfer plant niwroamrywiol a'r rhai ag anghenion arbennig.

## Cymorth i farw

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn cefnogi newid yn y gyfraith i gyfreithloni cymorth i farw i bobl sydd â chlefyd angheuol sy'n dymuno osgoi dioddefaint diangen hir, os mai dyma eu hewyllys clir a sefydlog. Byddai mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith..

## Dileu achosion newydd o HIV erbyn 2030

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn gweithio tuag at atal mwy o drosglwyddiadau HIV erbyn 2030, gan eirioli am bolisïau cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys mynediad at y bilsen atal HIV mewn fferyllfeydd, trwy wasanaethau meddygon teulu ac ar-lein, ac adnewyddu rhaglenni llwyddiannus profi HIV mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ym mhob ardal sydd â chyfraddau uchel o HIV. Yng Nghymru rydym yn cefnogi Cynllun Gweithredu HIV presennol Cymru.



# GOFALU GYDAG URDDAS A THRUGAREDD

Mae Cymru ar y blaen o ran cysylltu gofal cymdeithasol drwy'r GIG gyda'r Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol arfaethedig i weithio ochr yn ochr â'r GIG ac yng Nghymru mae gofal personol eisoes ar gael am ddim i lawer o dderbynwyr. Fodd bynnag, yng Nghymru ar hyn o bryd mae miloedd o bobl hŷn yn aros am adolygiadau gofal, taliadau neu asesiadau, ac mae 152,000 o swyddi gwag i staff yn y sector gofal. Amcangyfrifir bod 320,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sef 10.5% o'r boblogaeth.

Er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hwn, byddai Gwyrddion etholedig yn gwthio am y canlynol:

- Sicrhau gofal personol am ddim er mwyn sicrhau urddas i bobl hŷn ac i'r anabl.
- Cynyddu cyfraddau cyflog a chyflwyno strwythur gyrfa ar gyfer gofalwyr er mwyn ailadeiladu'r gweithlu gofal.
- Buddsoddi mewn gofal cymdeithasol i dynnu pwysau oddi ar y GIG.

I'r rhai sy'n dal i fyw gartref, bydd hyn yn galluogi mynediad cynharach at gymorth i gynnal annibyniaeth a llesiant. I'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau preswyl, bydd yr elfennau gofal personol yn cael eu hariannu'n llawn, ochr yn ochr â dull graddedig tuag at gostau eraill yn seiliedig ar lefel yr incwm. I'r rhai na allant fforddio elfen llety gofal preswyl, gan gynnwys y rhai y mae eu priod yn dal i fod yng nghartref y teulu, mae angen sicrhau bod gan yr awdurdodau lleol gyllid digonol i ddarparu'r lefel gywir o gymorth ariannol.

Byddai Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Gwariant ychwanegol i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu gofal cymdeithasol o safon uchel i blant.





# CARTREFI TECACH, GWYRDDACH

Mae angen cartref cynnes, diogel a fforddiadwy ar bawb. Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes gan filiynau o bobl yr eitem fwyaf sylfaenol hon ar gyfer byw bywyd hapus a llwyddiannus. Mae dros filiwn o aelwydydd ledled y DU ar restrau aros cynghorau ac yng Nghymru mae dros 3,000 o blant yn tyfu i fyny mewn llety dros dro, sy'n golygu ansicrwydd a symud dro ar ôl tro. Mae'r Gwyrddion yn amcangyfrif bod angen £2.2 biliwn ychwanegol sy'n codi i £18.1 Bn i fynd i'r afael â'r argyfwng tai dros gyfnod Senedd nesaf San Steffan.

## Ein Siarter Cartrefi Cywir, Lle Cywir, Pris Cywir

Mae angen i awdurdodau lleol a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i ddarparu cartrefi y gall pobl fforddio eu rhentu neu eu prynu, lle mae eu hangen ar bobl. Bydd y Siarter Cartrefi Cywir, Lle Cywir, Pris Cywir yn diogelu mannau gwyrdd gwerthfawr i gymunedau a hefyd yn lleihau allyriadau hinsawdd, mynd i'r afael â thlodi tanwydd a darparu tai gwirioneddol fforddiadwy a chymdeithasol.

- Yng Nghymru mae angen o leiaf 12,000 o gartrefi newydd y flwyddyn arnom a bydd angen i'r rhan fwyaf ohonynt fod yn dai cymdeithasol.
- Yng Nghymru nid oes 'Hawl i Brynu' ac mae cartrefi cymdeithasol yn cael eu diogelu ar gyfer cymunedau lleol am byth.

Byddai'r Siarter Tai Gwyrdd yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ledaenu datblygiadau bach ar draws eu hardaloedd, lle bo hynny'n briodol, yn hytrach nag adeiladu ystadau newydd enfawr.
- Ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod buddsoddiad ychwanegol mewn iechyd, trafnidiaeth a gwasanaethau eraill lleol yn cyd-fynd â datblygiad newydd
- Sicrhau bod pob cartref newydd yn cwrdd â safonau Passivhaus neu safonau cyfatebol a bydd adeiladwyr tai yn cynnwys paneli solar a phympiau gwres ymhob cartref newydd.
- Sicrhau bod yr holl gynllunio ar gyfer cartrefi newydd yn ystyried effeithiau hinsawdd fel llifogydd yn y dyfodol a gwytnwch isadeiledd.

## Ein Gwarant Cartrefi Tecach, Gwyrddach

Yn y DU, mae ein biliau ynni yn llawer rhy uchel gan fod gennym y cartrefi sydd wedi'u hinswleiddio waethaf yn Ewrop. Byddem yn gostwng biliau drwy leihau'r gwres a gollir o gartrefi: y bil rhataf yw'r un nad oes yn rhaid i chi ei dalu.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am raglen ôl-osod o stryd i stryd a arweinir gan awdurdodau lleol i inswleiddio ein cartrefi, darparu gwres glân a dechrau addasu ein hadeiladau i amodau hinsawdd mwy eithafol. Yng Nghymru, byddai hyn yn golygu buddsoddiad mawr a rhaglen creu swyddi (Cronfa Trawsnewid Economaidd Gwyrdd) i:

- Inswleiddio cartrefi i safon EPC B neu uwch fel rhan o raglen ddeng mlynedd.
- Inswleiddio adeiladau eraill i safon uchel.
- Buddsoddiad dros y pum mlynedd nesaf mewn systemau gwresogi (e.e. pympiau gwres) ar gyfer cartrefi ac adeiladau eraill.

## Cartrefi cymdeithasol newydd ac ychwanegol bob blwyddyn

Mae'r Gwyrddion Etholedig yn addo darparu cartrefi cymdeithasol newydd ac ychwanegol bob blwyddyn drwy::

- Prynu/adnewyddu stoc tai hŷn.
- Hawl gymunedol i brynu ar gyfer awdurdodau lleol ar gyfer sawl categori o eiddo.

## Ein Bargen Deg i Rentwyr

Mae miliynau o rentwyr preifat ledled y DU yn wynebu rhenti anfforddiadwy ac ansicrwydd parhaus. Bydd y Gwyrddion

Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Rheolaethau Rhent Gwell i amddiffyn tenantiaid a sicrhau bod tai yn cael eu trin fel angen dynol sylfaenol sy'n fforddiadwy i bawb.
- Yr 'Hawl i Rentu' ar gyfer y rhai sy'n wynebu anawsterau â thaliadau morgais.
- Er bod rhywfaint o reoleiddio gwell yng Nghymru, mae angen tenantiaeth rhentu sefydlog newydd arnom o hyd a diwedd ar droi allan heb fai fel bod tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac ni eu bywydau gael eu troi wyneb i waered ar fympwy eu landlordiaid.

Byddwn hefyd yn cyflwyno hawl i fynnu gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni.

- Byrddau tenantiaeth preswyl preifat i ddarparu fforwm anffurfiol, rhad a chyflym ar gyfer datrys anghydfodau cyn iddynt gyrraedd tribiwnlys.





# CREU ECONOMI LESIANT SY'N DECACH A GWYRDDACH

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn brwydro dros economi sy'n sicrhau diogelwch, llesiant a gwell ansawdd bywyd i bawb, yn ogystal â diogelu ein hamgylchedd a'n galluogi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth mewn modd uchelgeisiol ac ar fyrder. Mae angen i ni symud o fesurau llwyddiant CDG cyfyngedig i flaenoriaethau'r Economi Lesiant ar gyfer iechyd, hapusrwydd, mwy o gydraddoldeb a ffyniant gyda byd naturiol llewyrchus.

Mae preifateiddio wedi methu. Caiff difidendau eu talu i gyfranddalwyr tra bo'r seilwaith yn cael ei ddinistrio, mae gwastraff yn gorlifo ein hafonydd ac mae ein haer yn mynd yn fwyfwy llygredig. Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn rhoi'r rheilffyrdd a'r cwmnïau dŵr preifat dan berchnogaeth gyhoeddus, fel eu bod yn cael eu rhedeg er budd pob un ohonom, yn hytrach nag er mwyn cynyddu cyfoeth cyfranddalwyr.

Byddai Gwyrddion Etholedig yn pwyso am Drawsnewid Economaidd Gwyrdd gwerth £9.2 Bn a fyddai'n codi i £72.6 dros 5 mlynedd i gynnwys:

- Buddsoddiad wedi'i dargedu bob blwyddyn yn ystod y Senedd nesaf wrth symud i economi werdd.
- Treth garbon i waredu tanwydd ffosil o'n heconomi a chodi arian i fuddsoddi mewn trawsnewid economaidd.
- Rhoi'r 5 cwmni ynni mawr yn ôl o dan berchnogaeth gyhoeddus.

Mae angen i ni adeiladu cynaliadwyedd ein cymunedau drwy'r cyfnod pontio. Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Buddsoddiad wedi'i dargedu mewn sgiliau a hyfforddiant, gan alluogi gweithwyr i chwarae rhan ganolog mewn economi werdd.

- Cyfran o berchnogaeth gymunedol mewn seilwaith ynni cynaliadwy lleol fel ffermydd gwynt.

- Datganoli Ystadau'r Goron i Gymru, gan ei gwneud hi'n bosibl defnyddio'r arian a godir drwy ddatblygiadau ynni adnewyddadwy oddi ar y tir i gefnogi economi gynaliadwy leol.

- Mae Plaid Werdd Cymru, ynghyd ag eraill yng Nghymru, o'r farn nad yw'r fformiwla ar gyfer meysydd datganoledig (Fformiwla Barnett) yn ddigonol ar gyfer demograffeg Cymru a'i gwaddol o ran difrod diwydiannol. Rydym yn pwyso am gydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid ar gyfer meysydd datganoledig.

## Trethu cyfoeth yn deg a benthyca i fuddsoddi

Tra bo ein gwasanaethau cyhoeddus yn gweiddi am fuddsoddiad, mae nifer y biliwnyddion yn y DU wedi codi o 29 i 171 o dan y llywodraeth bresennol. Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am newidiadau mawr i system dreth y DU i symleiddio ac alinio cyfraddau'r trethi a delir ar incwm ac enillion, beth bynnag fo'u ffynhonnell, ac i drethu'n deg grynodiadau cyfoeth eithaf gormodol. Byddai'r mesurau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Treth Gyfoeth o 1% bob blwyddyn ar asedau dros £10 miliwn ac o 2% ar asedau dros £1 biliwn. Ni fyddai'r mwyafrif llethol o drethdalwyr yn talu'r dreth hon.

- Diwygio Treth Enillion Cyfalaf (CGT) i alinio'r cyfraddau a dalwyd gan drethdalwyr ar incwm ac enillion trethadwy. Byddai hyn yn effeithio ar lai na 2% o'r holl drethdalwyr incwm.

- Alinio'r cyfraddau treth ar incwm buddsoddi gyda'r dreth a'r cyfraddau Yswiriant Gwladol ar incwm cyflogaeth.

- Dileu'r Terfyn Enillion Uchaf o ran TAW sy'n gwbl annheg gan ei fod yn lleihau swm yr Yswiriant Gwladol a delir gan bobl sy'n ennill cyflogau uchel.

Erbyn diwedd Senedd nesaf San Steffan, rydym yn amcangyfrif y gallai'r newidiadau hyn godi refeniw ychwanegol o rhwng £50 a £70 biliwn y flwyddyn ym mhrisiau 2024. Yn ogystal, byddai treth garbon a osodwyd i ddechrau ar £120 y dunnell o garbon a allyrrir, gan gynyddu dros ddeng mlynedd i uchafswm o £500 y dunnell, yn codi hyd at £70 biliwn ychwanegol.

Rydym yn barod i fenthyca er mwyn buddsoddi. Mae byw o fewn terfynau system gyllidol gwbl hurt yn gamgymeriad mawr. Bydd buddsoddi mewn amddiffyn ein hinsawdd nawr yn arbed costau enfawr yn y dyfodol, ac mae gwario ar wasanaethau cyhoeddus addas a seilwaith priodol at y diben yn hanfodol ar gyfer sicrhau dyfodol llewyrchus i bob un ohonom.

## BBaChau a chefnogaeth y sector cymunedol

Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn ein heconomi a'n cymunedau.

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn pwyso am y canlynol:

- Sefydlu banciau rhanbarthol ar y cyd i ysgogi buddsoddiad mewn datgarboneiddio a chynaliadwyedd economaidd lleol, a chefnogaeth i fentrau fel Banc arfaethedig Cambria yng Nghymru.
- Mwy o gyllid grant i awdurdodau lleol er mwyn helpu busnesau i ddatgarboneiddio.
- Annog perchnogaeth gymunedol a mentrau cymdeithasol drwy sicrhau mwy o fynediad at gyllid y llywodraeth wrth drosglwyddo i economi ddi-garbon, a datganoli Ystadau'r Goron yng Nghymru.
- Estates in Wales.



# CYNNAU YNNI TECACH A GWYRDDACH

## Cyflymu buddsoddiad a chyflenwi ynni glân

Nid yw targedau hinsawdd presennol y DU yn adlewyrchu natur frys yr argyfwng hinsawdd na'r hyn sy'n ofynnol gan gyfiawnder byd-eang. Byddem yn gwthio Llywodraeth San Steffan i drosglwyddo i gymdeithas ddi-garbon cyn gynted â phosibl, a mwy na degawd cyn 2050.

Bydd yr uchelgais hwn yn darparu: cyflenwad trydan di-garbon; diogelwch y cyflenwad dros gyfnodau byr a hir o genhedlaeth isel; digon o drydan i bob car a fan fod yn drydanol, i bob cartref ac adeilad roi'r gorau i ddefnyddio tanwyddau ffosil, ac i'r rhan fwyaf o ddiwydiant bontio i ynni glân.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Gwynt i ddarparu tua 70% o drydan y DU erbyn 2030.
- Buddsoddi mewn capasiti storio ynni a dosbarthu trydan yn fwy effeithlon
- Cymunedau i fod yn berchen ar eu ffynonellau ynni eu hunain, gan sicrhau y gallant ddefnyddio unrhyw elw o werthu gormod o ynni i leihau eu biliau neu er budd eu cymunedau.

## Gwaredu tanwyddau ffosil yn raddol

- Canslo trwyddedau diweddar tanwyddau ffosil fel yr un ar gyfer Rosebank (Yr Alban) a rhwystro pob prosiect echdynnu tanwydd ffosil newydd yn y Deyrnas Unedig.

- Dileu'r holl gymorthdaliadau ar gyfer olew a nwy.

- Cyflwyno treth garbon ar yr holl fewnforion tanwydd ffosil ac echdynnu domestig, yn seiliedig ar allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir pan fydd tanwydd yn cael ei losgi.





## Pŵer niwclear

Rydym am weld y defnydd o ynni niwclear yn dod i ben, gan ei fod yn anniogel ac yn llawer drytach nag ynni adnewyddadwy. Mae'r broses o ddatblygu gorsafoedd pŵer niwclear yn rhy araf o ystyried y ffaith bod angen i ni weithredu ar fyrder o ran yr hinsawdd. Maent hefyd yn creu symiau anymarferol o wastraff ymbelydrol ac mae cysylltiad annatod rhyngddynt â chynhyrchu arfau niwclear. Mae angen cael gwared ar gyfleusterau niwclear newydd fel yr un arfaethedig yn Wylfa ar Ynys Môn. Byddai gwario'r un arian ar ynni adnewyddadwy yn creu miloedd yn fwy o swyddi a gallai hwyluso Pontio Teg ar gyfer datgarboneiddio diwydiannau llygredig.



# GWAITH TECACH, CYFLOGAU TECACH

Mae gwerth cyflogau miliynau o bobl wedi lleihau'n ddifrifol yn sgil chwyddiant ers ymhell dros ddegawd, gan gynnwys llawer sy'n gweithio mewn gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn amddiffyn ac yn ymestyn hawliau gweithwyr i drefnu yn y gweithle, gan bwyso am y canlynol:

- Diddymu deddfwriaeth gyfredol sy'n gweithio yn erbyn undebau a'i disodli â Siarter Hawliau Gweithwyr cadarnhaol, gyda'r hawl i streicio ynghyd â rhwymedigaeth gyfreithiol i bob cyflogwr gydnabod undebau llafur.
- Cymhareb gyflog o hyd at 10:1 ar gyfer pob sefydliad yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac o fewn mentrau cymdeithasol.
- Cynnydd yn yr isafswm cyflog i £15 yr awr, waeth beth yw eich oedran, gyda'r costau i fusnesau bach yn cael eu gwrthbwyso drwy leihau eu taliadau Yswiriant Gwladol.
- Hawliau cyflogaeth cyfartal i bob gweithiwr o'u diwrnod cyntaf o gyflogaeth, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio yn yr 'economi gig' ac ar gontractau dim oriau. Byddai trwyddedau i gyflogwyr gig sy'n parhau i dorri'r gyfraith o ran cyflogaeth, diogelu data neu drethi yn cael eu gwrthod.
- Newid i wythnos 4 diwrnod.



# CYMORTH CYMDEITHASOL TECACH, GWYRDDACH

Mae'r rhan fwyaf ohonom eisiau byw mewn gwlad lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas, ac nid gwlad lle mae'r nifer uchaf erioed o blant yn byw mewn tlodi, lle na all pobl hŷn gadw'n gynnes a lle caiff pobl anabl eu siomi'n wael. Gallwn wneud cymaint yn well na hyn, gan roi hwb i bawb a sicrhau y gall pob un ohonom gael cymorth ychwanegol pan fydd ei angen arnom. Mae'r Gwyrddion yn cynnig cyllideb ychwanegol o £17.6 Bn a fyddai'n codi i £29.4 biliwn ar gyfer Cymhorthdal Incwm, dros 5 mlynedd Senedd nesaf San Steffan.

I fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw er lles y bobl dlotaf yn ein cymdeithas ac i wneud y system nawdd cymdeithasol yn decach ac yn un sy'n cosbi llai, bydd y Gwyrddion etholedig yn ymgyrchu i:

Introduce a Universal Basic Income over the long term, to will give everybody the security to transition a business for new conditions, start a business, study, train or just live their life in dignity.

- Cynyddu'r Credyd Cynhwysol a budd-daliadau etifeddol £40 yr wythnos.
- Cael gwared ar y cap ar y budd-dal i drydydd plentyn, gan godi 250,000 o blant allan o dlodi.
- Gwaredu'r 'dreth ystafell wely', sy'n cosbi'n annheg grŵp bach o bobl sy'n dymuno aros mewn cartref hirsefydlog.
- Cyflwyno Incwm Sylfaenol Cyffredinol dros y tymor hir, i roi'r sicrwydd i bawb i bontio busnesau ar gyfer amodau newydd, dechrau busnes, astudio, hyfforddi neu fyw eu bywyd mewn urddas.

## Pobl anabl

Mae gan bobl anabl gymaint o hawl i fyw bywydau llawn, ystyrlon a rheoli eu bywydau o ddydd i ddydd â phobl nad ydynt yn anabl.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn gwthio i:

- RAdfer gwerth budd-daliadau anabledd gyda chynnydd o 5% ar unwaith
- Diwygio profion cymhwystra amhriodol ar gyfer budd-daliadau fel PIP a thargedu gofalwyr a phobl anabl yn annheg o ran budd-daliadau.
- Ei gwneud hi'n orfodol i gynghorau ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion 16-18 oed sydd ag AAAA.

# RHOI BYWYD NEWYDD I FYD NATUR

Rydyn ni'n rhan o fyd natur ac os na fydd yn ffynnu, ni allwn ffynnu chwaith, ond mae'r DU ymhlith yr ardaloedd gwaethaf yn y byd o ran fod cyflwr ei byd natur ar ei waethaf.

Er mwyn diogelu ac adfer natur, bydd y Gwyrddion Etholedig yn ymgyrchu i:

- Cyflwyno Deddf Hawl i Natur newydd, gan roi'r hawl i bawb gael amgylchedd glân, iach a chynaliadwy, ac ymestyn hawliau i fyd natur ei hun,
- Diweddu'r sgandal o arllwys carthion i'n hafonydd a'n moroedd drwy roi'r cwmnïau dŵr yn ôl o dan berchnogaeth gyhoeddus.
- Ymestyn mynediad pobl at fannau gwyrdd a dyfrffyrdd sy'n agos i'r man lle maent yn byw gan wthio am Ddeddf Hawl i Grwydro ar draws Cymru gyfan (20% ar hyn o bryd).
- Rhoi 30% o dir a môr y DU yn ôl i fyd natur erbyn 2030.

Bydd ASau Gwyrdd hefyd yn pwyso am y canlynol:

- Terfynu ar unwaith yr arfer o awdurdodi plaladdwyr sy'n lladd gwenyn.
- Deddf Aer Glân (Hawliau Dynol) newydd.





# TRINIAETH DECACH, MWY CAREDIG O ANIFEILIAID

Er mwyn diogelu anifeiliaid a'u cynefinoedd yn well

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn pwyso am y canlynol:

- Creu Comisiwn newydd ar gyfer y DU gyfan ynghylch Diogelu Anifeiliaid.
- Gwahardd pob math o chwaraeon gwaed, gan gynnwys hela trywydd.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i holl ddyfroedd tiriogaethol a thramor y DU gynnig y lefel uchaf o amddiffyniad i fywyd morol.
- Gwaredu'r arfer o ddifa moch daear fel sydd eisoes wedi digwydd yng Nghymru.
- Gwaredu ffermio ffatri, gorfodi'r dwysedd stocio mwyaf, a gwaredu'r arfer o ddefnyddio gwrthfiotigau i drin anifeiliaid fferm.
- Gwaharddiad llwyr ar gadw anifeiliaid yn rhy agos at ei gilydd mewn cewyll ac anffurfio anifeiliaid fferm yn fwriadol ac yn ddiangen.

# BWYD A FFERMIO TECACH, GWYRDDACH

Mae ein system fwyd yn fethiant. Amcangyfrifir bod salwch sy'n gysylltiedig â deiet gwael yn costio £586 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru, ond eto dro ar ôl tro nid yw llywodraethau San Steffan wedi llwyddo i ddelio â chynhyrchwyr bwyd nad yw'n iach. Yn y cyfamser, mae'r ffordd yr ydym yn cynhyrchu ein bwyd yn niweidio ein byd naturiol a'n hinsawdd. Mae ein system fwyd yn y DU yn cyfrif am draean o'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr a hi yw'r sbardun mwyaf o ran colli natur a chreu llygredd yn ein hafonydd. Cred y Gwyrddion y dylid cyflwyno cyllideb ychwanegol ar gyfer natur, bwyd a ffermio gwerth £3.6 Bn a fyddai'n codi i £4.5 Bn dros 5 mlynedd Senedd nesaf San Steffan.

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn gweithio gyda ffermwyr a rhanddeiliaid eraill i drawsnewid ein system fwyd a ffermio, gan sicrhau ein bod yn cynhyrchu bwyd iach, maethlon am brisiau teg i ddefnyddwyr a chyda chyflogau teg i dyfwyr. Byddwn hefyd yn anelu at gynyddu faint o fwyd sy'n cael ei dyfu a'i fasnachu yn y DU, ac mor lleol â phosibl.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Cynyddu'r cymorth ariannol i ffermwyr yn y DU bron dair gwaith i gefnogi'r broses o bontio i ffermio sy'n gyfeillgar i natur.
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth ac iechyd y pridd, gan arwain at afonydd glanach, er enghraifft.
- Sicrhau bod taliadau ffermio yn gysylltiedig â llai o ddefnydd o blaladdwyr ac agrocemegau eraill.
- Sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael pryd ysgol am ddim bob dydd, gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Annog ysgolion i gynnwys plant yn y gwaith o dyfu, paratoi a choginio bwyd, fel rhan o'r cwricwlwm craidd.
- Cyflwyno polisïau sy'n sicrhau nad yw bwyd dros ben o ansawdd da yn cael ei wastraffu.

# TRAFNIDIAETH DECACH, GWYRDDACH

Mae ein dewisiadau o ran trafnidiaeth yn cyfrif am oddeutu chwarter yr allyriadau carbon, felly mae ei gwneud hi'n haws dewis opsiynau mwy gwyrdd yn allweddol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Eto i gyd, mae'r ddarpariaeth o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn parhau i ddirywio, sy'n golygu'n aml nad oes gan bobl ar incwm isel unrhyw opsiynau fforddiadwy.

Mae'r Gwyrddion yn cynnig cynnydd o £5.7 biliwn yn y gyllideb a fyddai'n codi i £14.6 Bn ar gyfer trafnidiaeth dros 5 mlynedd Senedd nesaf San Steffan.

Bydd ASau'r Gwyrddion yn San Steffan yn hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus well, rhatach fel bod gan bob cymuned gyfle i ffynnu.

Byddwn yn galw am y canlynol:

- Cynyddu cymorthdaliadau cyhoeddus blynyddol ar gyfer teithio ar drenau a bysiau, gyda theithio am ddim ar fysiau i bobl ifanc dan 18 oed, gan sicrhau cysylltiadau ar gyfer pob cymuned fel y gall ffynnu.
- Buddsoddi mewn gwella trafnidiaeth gyhoeddus, cefnogi trydaneiddio a chreu llwybrau beicio a llwybrau troed newydd, cefnogi strydoedd diogel a theithio llesol.
- Rhoi'r rheilffyrdd yn ôl o dan berchnogaeth gyhoeddus fel gwasanaeth hanfodol, gan helpu i ddatgarboneiddio teithio.
- Rhoi rheolaeth i awdurdodau lleol dros wasanaethau bysiau gwell a'u hariannu.

## Strydoedd diogel a theithio llesol

Mae cerdded, olwyno a beicio nid yn unig yn helpu i leihau allyriadau carbon a llygredd aer ond maen nhw hefyd yn helpu i'n gwneud ni i gyd yn hapusach ac yn iachach.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Buddsoddiad mawr mewn llwybrau beicio a llwybrau troed newydd.
- Ailystyried sut rydym yn defnyddio strydoedd mewn ardaloedd preswyl i leihau traffig a'u hagor at ddefnydd cymunedol
- Mabwysiadu'r amcan o sicrhau bod 50% o deithiau mewn trefi a dinasoedd yng Nghymru yn digwydd ar droed, ar olwynion neu ar feic erbyn 2030..

## Hedfan

Y diwydiant hedfan yw'r ffynhonnell sy'n tyfu gyflymaf o ran allyriadau CO2 – a'r bobl fwyaf cyfoethog sy'n gyrru'r duedd hon. Yn y DU mae 70% o hediadau yn cael eu gwneud gan 15% o bobl gyfoethog ein gwlad, ac nid yw 57% yn hedfan dramor o gwbl.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Ardoll ar hedfan yn aml.
- Gwaharddiad ar deithiau domestig ar gyfer teithiau a fyddai'n cymryd llai na thair awr ar y trên.
- Atal ehangu capasiti meysydd awyr.



# SYSTEM ADDYSG DECACH, GWYRDDACH

Dylai addysg ysbrydoli cariad at ddysgu a sicrhau bod pob person ifanc yn gallu cyflawni hyd eithaf ei allu. Yn anffodus, fodd bynnag, mae gormod o blant yn methu â ffynnu mewn system addysg sy'n gweithredu fel llinell gynhyrchu yn hytrach na fel system sy'n gwerthfawrogi eu rhinweddau unigol. Buddsoddiad yn y genhedlaeth nesaf yw'r buddsoddiad pwysicaf y gallwn ei wneud. Mae'r Gwyrddion yn cynnig buddsoddiad o £14.9 Bn a fyddai'n sefydlogi ar £14.7 Bn ar addysg dros 5 mlynedd nesaf Senedd San Steffan. Cyfrifir gwariant cyfalaf ar adeiladau gyda'r GIG ac mae angen cynnydd o £9.9 biliwn, gan sefydlogi ar £7.1 biliwn dros 5 mlynedd Senedd nesaf San Steffan.

Bydd ASau Gwyrdd yn San Steffan yn hyrwyddo'r canlynol:

- Cynnydd yng nghyllid ysgolion gan gynnwys codiad cyflog i athrawon.
- Cefnogi pob myfyriwr addysg uwch, gan adfer grantiau a gwaredu ffioedd dysgu.
- Dod â phrofion sy'n achosi straen mewn ysgolion cynradd ac uwchradd i ben a diwygio'r system arolygu.
- Sicrhau cefnogaeth ddigonol yn y system ysgolion ar gyfer plant niwro-amrywiol a'r rhai ag anghenion arbennig.
- Yng Nghymru, cefnogi'r ymrwymiadau presennol i Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF). Byddai dull llai ffurfiol o brofi yn gwneud ymrwymiadau o'r fath yn haws eu gweithredu.

# CELFYDDYDAU, CHWARAEON A DIWYLLIANT I BAWB

Mae'r celfyddydau, diwylliant a chwaraeon yn ganolog i fwynhad pobl o fywyd, i'w llesiant meddyliol a chorfforol, ac i gymunedau ffyniannus. Maent hefyd yn gwneud cyfraniad enfawr at economi'r DU. Bydd ASau Gwyrdd yn pwyso am y canlynol:

- Buddsoddiad i gefnogi chwaraeon, celfyddydau a diwylliant cymunedol.
- Cadw cyfleusterau chwaraeon, amgueddfeydd, theatrau, llyfrgelloedd ac orielau celf lleol ar agor a'u galluogi i ffynnu.
- Gwaredu'r arfer o godi TAW ar weithgareddau diwylliannol, gan ostwng prisiau popeth - o docynnau amgueddfa i gigs mewn tafarndai lleol i'w gwneud o fewn cyrraedd mwy o bobl.

## Y Cyfryngau

Mae ein cyfryngau yn cael eu harwain gan filiwnwyr a pherchenogion cwmnïau technoleg mawr sy'n canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau'r elw mwyaf posibl gan weithredu mewn modd anghyfrifol sy'n tanseilio democratiaeth ac yn hyrwyddo cynnwys niweidiol ar-lein.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn pwyso am y canlynol:

- Newid yn y gyfraith fel na all unrhyw unigolyn na chwmni unigol fod yn berchen ar fwy nag 20% o unrhyw farchnad ym maes y cyfryngau.
- Yr holl ddiwygiadau a gynigiwyd yn ail ran Adroddiad Leveson 2012



# AMDDIFFYN HAWLIAU DYNOL, DEMOCRATIAETH A CHYFIAWNDER

Bydd ASau Gwyrdd bob amser yn amddiffyn ein hawliau democrataidd a dynol, yn cynnal rheolaeth y gyfraith ac yn mynd i'r afael â llygredd gwleidyddol. Byddwn hefyd yn pwyso ar i'r DU ddod yn ddemocratiaeth fodern, swyddogaethol a mwy cynrychioliadol.

Byddwn yn amddiffyn y Ddeddf Hawliau Dynol, aelodaeth y DU o'r ECHR, a mynediad uniongyrchol parhaus at hawliau'r Confensiwn yn y llysoedd domestig.

Bydd y Gwyrddion Etholedig hefyd yn pwyso am y canlynol:

- Disodli system y cyntaf i'r felin ar gyfer etholiadau seneddol San Steffan gan gyflwyno system bleidleisio deg a chyfrannol..
- Disodli Tŷ'r Arglwyddi gan gyflwyno yn ei le ail siambr etholedig
- Rhoi'r bleidlais i bobl ifanc 16 oed a chyflwyno hawliau pleidleisio yn seiliedig ar breswylfeydd
- Dod â thactegau atal pleidleiswyr i ben fel cardiau adnabod diangen ar gyfer pleidleisio a llygredd gwleidyddol e.e. 'contractau i ffrindiau' fel y rhai a welwyd yn ystod y pandemig.



Mae'r Gwyrddion yn credu mewn hunanbenderfyniad cenedlaethol. Dylai Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yn rhydd i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch i ba raddau y maent yn rhan o'r Deyrnas Unedig.

- Mae Plaid Werdd Cymru yn ymgyrchu dros Gymru annibynnol gyda'i chyfansoddiad democrataidd a'i Senedd annibynnol ei hun, sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol gwyrdd yng Nghymru.

Mae ymrwymiadau gwyrdd i hawliau dynol hefyd yn cwmpasu cydraddoldeb, cyfiawnder, rhyddid sifil a rhyddid a diogelwch personol.

Bydd ASau Gwyrdd yn:

- Hyrwyddo strategaeth weithredu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched
- Ceisio cael gwared ar Ddeddf yr Heddlu, Dedfrydu Troseddau a'r Llysoedd, y Ddeddf Trefn Gyhoeddus a deddfwriaeth arall sy'n erydu'r hawl i brotestio a rhyddid mynegiant.
- Ymgyrchu dros gardiau adnabod penodedig ar gyfer pobl draws ac anneuaidd.
- Atal a mynd i'r afael â throseddau casineb hiliol, casineb at fenywod, islamoffobia a gwrth-semitiaeth.
- Ceisio adfer ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu gyda chraffu annibynnol a thryloyw ar broblemau hiliaeth a chasineb at fenywod yn yr heddlu ei hun.
- Datganoli yn llawn Gyfiawnder a Phlismona i Gymru gyda buddsoddiad mawr i adnewyddu'r system llysoedd a mynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn cyfiawnder.




# BYD TECACH, GWYRDDACH

Mewn byd sydd dan fygythiad gan ryfel, chwalfa hinsawdd a chynnydd cyfundrefnau awdurdodaidd, mae'r Blaid Werdd yn credu y dylai polisi tramor y DU fod yn seiliedig ar ymrwymiadau cyffredin i ddemocratiaeth, heddwch, undod byd-eang a diogelu hawliau dynol. Amcangyfrifir cynnydd yn y gyllideb o £8.3 biliwn yn codi i £24 biliwn dros oes Senedd nesaf San Steffan.

Bydd ASau Gwyrdd yn gweithio dros y DU er mwyn:

- Arwain y gwaith o gynnal yr hawl i hunanbenderfyniad a gorfodi cyfraith ryngwladol, gan gynnwys pwysigrwydd y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol.
- Parhau i gefnogi'r Wcráin wrth iddi wrthsefyll goresgyniad Rwsia.
- Ail-ymuno â'r UE fel ein partner masnachu a gwleidyddol mawr cyn gynted ag y bydd yr amser a'r amodau gwleidyddol yn iawn.

## Israel a Phalestina

Rydym yn condemnio llofruddiaeth erchyll cannoedd o sifiliaid Israel gan Hamas, ac ers hynny y troseddau rhyfel gan luoedd Israel sydd wedi achosi marwolaethau degau o filoedd o sifiliaid Palesteinaidd.

Bydd ASau Gwyrdd yn pwyso am y canlynol:

- Gwaharddiad dwyochrog ar unwaith.
- Rhoi'r gorau i werthu arfau i Israel.
- Cynyddu ymdrechion i sicrhau bod pob gwystlon a charcharor gwleidyddol yn cael eu rhyddhau.
- Ymdrech ryngwladol frys i ddod â meddiannaeth anghyfreithlon tir Palesteina i ben a sicrhau gwladwriaeth lawn i Balesteina.
- Ailgyflwyno cyllid ar gyfer UNRWA a'r gefnogaeth i gyflwyniad De Affrica i'r Llys Cyfiawnder Rhyngwladol

## Arfau niwclear a NATO

Nid yw'r rhan fwyaf o wledydd y byd yn meddu ar arfau dinistr torfol ac maent yn fwy diogel o'r herwydd.

Bydd y Gwyrddion Etholedig yn:

- Pwyso ar y DU i lofnodi Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW), ac yn dilyn hyn i ddechrau'r broses o ddatgymalu ein harfau niwclear ar unwaith, canslo rhaglen Trident a chael gwared ar yr holl arfau niwclear tramor o bridd y DU.

- Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i ehangu aelodaeth o'r TPNW a sicrhau bod pob gwladwriaeth yn bodloni eu hymrwymiadau o dan y Cytundeb Peidio Amlhau Niwclear.

Rydym yn cydnabod bod gan NATO rôl bwysig wrth sicrhau gallu ei aelod-wladwriaethau i ymateb i fygythiadau i'w diogelwch.

Byddem yn gweithio o fewn NATO i gyflawni'r canlynol:

- Rhagor o bwyslais ar adeiladu heddwch byd-eang

- Ymrwymiad i egwyddor 'Dim Defnydd Cyntaf' o ran arfau niwclear.

## Diplomyddiaeth hinsawdd a chymorth tramor

I gydnabod pwysigrwydd cefnogi gwledydd yn Ne'r Byd i ddatgarboneiddio eu heconomïau ac adeiladu gwytnwch i stormydd cynyddol ddifrifol, llifogydd a thymheredd cynyddol, byddai Gwyrddion Etholedig yn pwyso ar y DU i wneud y canlynol:

- Cynyddu cymorth rhyngwladol i 1% o GNI erbyn 2033.

- Cynyddu cyllid hinsawdd ar gyfer De'r Byd i 1.5% o GNI erbyn 2033 gyda £21.6 biliwn arall y flwyddyn yn cael ei ddarparu i'r Gronfa Golled a Difrod sydd newydd ei sefydlu.







# CROESO TECACH, GWYRDDACH

Mae'r Gwyrddion yn croesawu'r cyfraniadau hanfodol y mae mewnfudwyr a ffoaduriaid yn eu gwneud i gymdeithas Prydain. Rydym am fod yn groesawgar, hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chefnogi ymfudwyr i osod gwreiddiau.

Bydd ASau Gwyrdd yn pwyso am y canlynol:

- Gwaredu'r amgylchedd gelyniaethus.
- Gwaredu'r gofynion o ran isafswm incwm ar gyfer priod y rhai sy'n dal fisâu gwaith.
- Llwybrau diogel i noddfa i'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth.
- Cyflwyno Adran Ymfudo newydd i gymryd lle'r Swyddfa Gartref hynod ddiffygiol, gan wahanu'r swyddogaeth hon oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.
- Gwaredu'r drefn o gadw pob mudwr mewn canolfannau cadw oni bai eu bod yn berygl i ddiogelwch y cyhoedd.
- Diddymu'r amod 'dim hawl i arian cyhoeddus' sy'n gwaethygu anghydraddoldebau cymdeithasol, economaidd a hiliol.
- Caniatáu i'r rhai sy'n ceisio lloches ac amddiffyniad weithio tra bo eu cais yn cael ei ystyried.

Mae'r Blaid Werdd wedi mynd o nerth i nerth. Pan fyddwn yn dweud y gwir, anelu'n uchel a chynnig gobaith, mae pleidleiswyr yn ymateb.

Rydym wedi cynyddu nifer ein cynghorwyr mewn awdurdodau lleol bum gwaith ar draws Cymru a Lloegr dros y pum mlynedd diwethaf ac rydym bellach yn cael ein cynrychioli ar 170 o gynghorau ac yn rhan o'r weinyddiaeth mewn 42.

Mae cynghorwyr Gwyrdd etholedig yn defnyddio'r pŵer a roddir iddynt trwy eich pleidleisiau i adeiladu cymunedau tecach, gwyrddach. A dyna fydd ASau Gwyrdd etholedig yn San Steffan yn ei wneud hefyd.

Yn yr etholiad hwn rydym yn anelu'n uchel. Mae angen mwy o ASau Gwyrdd arnom ar frys i roi'r argyfwng hinsawdd ar frig yr agenda, i wrthsefyll a dad-breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus, ac i frwydro am y buddsoddiad sydd mor hanfodol er mwyn ceisio datrys cynifer o'n problemau a dechrau creu gwledydd tecach, gwyrddach, yn y DU ac yn y byd.

Mae'r cyfan yn eich dwylo chi.

**PLEIDLEISIWCH DROS OBAITH GO IAWN A NEWID GO IAWN**



# PLEIDLEISIWCH DROS NEWID DROS OBAITH DROS Y GWYRDDION

# ATODIAD COSTAU

Mae'r costau ar gyfer yr Etholiad Cyffredinol hwn yn gyffredinol ar gyfer y DU gyfan, ond maent hefyd yn cynnwys costau penodol ar gyfer Cymru a Lloegr lle mae rhai meysydd wedi'u datganoli. Mae Cymru'n derbyn cyfran o wariant Lloegr gan ddefnyddio fformiwla Barnett ac mae hyn wedi'i ychwanegu at y symiau a gyfrifwyd ar gyfer gwahanol ardaloedd. Mae union swm y cyfanswm a anfonir i Gymru a fyddai'n cael ei wario ar wahanol feysydd datganoledig yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru.

Mae'r atodiad hwn isod yn esbonio cyfanswm y gwariant ychwanegol a gyfrifir i fod yn angenrheidiol ar gyfer ymrwymiadau'r Maniffesto, ynghyd â chyfanswm y refeniw ychwanegol a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan gynigion o ran trethi a benthyca.

## Atodiad ar gyfer Maniffesto y Blaid Werdd

Dyma'n hamcangyfrifon gorau o'r hyn y mae angen ei ychwanegu at gyfanswm gwariant cyhoeddus yn yr adolygiad gwariant nesaf i ariannu'r polisïau a nodir yn y Maniffesto hwn.

Mae'r amcangyfrifon hyn ar gyfer y pum mlynedd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025.

Y llinell sylfaen ar gyfer y rhagolwg hwn yw amcanestyniad OBR Mawrth 2024.

1. Yn cynnwys llog ar ddyled

2. 2027 yn cynnwys £10bn o gyllid ar gyfer banciau rhanbarthol

3. Yn cynnwys arbedion o ganslo'r hyn a fyddai wedi cymryd lle Trident a gostyngiad mewn adeiladu ffyrdd

4. Mae'r amcangyfrifon hyn yn rhan o raglen 10 mlynedd. Efallai y bydd yr hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y 5 mlynedd gyntaf yn cael ei gyfyngu gan risgiau o ran chwyddiant a phrinder o ran cyflenwadau.



| Blwyddyn yn gorffen ar 31 Mawrth | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £bn | £bn | £bn | £bn | £bn |
| **Gwariant refeniw – Cyfanswm y DU oni nodir fel arall** | | | | | |
| Iechyd a gofal cymdeithasol (Cymru a Lloegr) | 33.4 | 38.1 | 43.7 | 49.7 | 56.5 |
| Cymorth incwm | 17.6 | 23.0 | 25.1 | 27.2 | 29.4 |
| Natur, bwyd a ffermio | 3.6 | 4.2 | 4.5 | 4.5 | 4.5 |
| Addysg (Cymru a Lloegr) | 14.9 | 14.5 | 14.0 | 14.3 | 14.7 |
| Trafnidiaeth | 5.7 | 10.5 | 10.8 | 11.9 | 14.6 |
| Cymorth tramor | 8.3 | 12.2 | 16.1 | 20.1 | 24.0 |
| Arall (1) | 15.7 | 17.4 | 17.2 | 17.3 | 17.9 |
| | 99.2 | 119.8 | 131.4 | 145.1 | 161.6 |
| **Gwariant cyfalaf – Cyfanswm y DU oni nodir fel arall** | | | | | |
| Iechyd ac addysg (Cymru a Lloegr) | 9.9 | 7.1 | 7.1 | 7.1 | 7.1 |
| Strategaeth ddiwydiannol werdd | 9.9 | 19.1 | 46.7 | 56.7 | 72.6 |
| Tai cymdeithasol | 2.2 | 4.6 | 5.8 | 10.5 | 18.1 |
| Arall (2) | 6.4 | 16.0 | 6.2 | 6.3 | 6.4 |
| Arbedion (3) | -5.6 | -6.8 | -9.2 | -11.6 | -13.9 |
| | 22.8 | 40.0 | 56.6 | 69.0 | 90.3 |
| **Trethiant** | | | | | |
| Trethi ar incwm a chyfoeth personol | 28.5 | 65.3 | 68.9 | 71.9 | 72.9 |
| Trethi busnes | 7.0 | 9.1 | 9.5 | 9.6 | 8.2 |
| Trethi carbon | 1.2 | 40.6 | 57.0 | 69.7 | 91.3 |
| | 36.7 | 115.1 | 135.4 | 151.2 | 172.4 |
| | | | | | |
| **Diffyg - cyllidwyd gan ddyled ychwanegol** | 85.3 | 44.7 | 52.6 | 62.9 | 79.5 |

# PLEIDLEISIWCH GWYRDD




Plaid Werdd
Green Party

WalesGreenParty

walesgreenparty.org.uk

Hyrwyddwyd gan Tony Cooke ar ran Plaid Werdd Cymru,
The Gate, Keppoch Street, Caerdydd, CF24 3JW.